# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai, ar 30 Ebrill 2010

**At Kirsty Williams:**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Ebrill 2010 mewn perthynas â rheoli ralis carfanau ar Fferm Gilestone, Tal-y-bont ar Wysg. Yn ogystal â hynny rydych wedi gofyn pryd y caiff penderfyniad ei wneud gan Weinidogion Cymru ar gais Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA) am Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer y Fferm hon. Rwyf hefyd yn ymateb i'r materion a godwyd gennych ynghylch Fferm Gilestone gyda'r Gweinidog dros Fusnes yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Ebrill 2010 am Gyfarwyddyd Erthygl 4 a phryderon Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg ynghylch y ffaith nad wyf wedi ymateb i'r llythyrau a anfonwyd ataf ganddynt mewn perthynas â'r sefyllfa ar Fferm Gilestone.

Fel y nodwyd gennych, diddymwyd y caniatâd cynllunio a roddwyd yn 2005 i ddefnyddio'r tir ar Fferm Gilestone fel safle carafanau gan yr Uchel Lys. Ers i chi ysgrifennu ataf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA) wedi cael gwaharddeb sy'n ei gwneud yn ofynnol i garafanau gael eu symud oddi ar y tir ar Fferm Gilestone ac yn gwahardd unrhyw garafanau eraill rhag cael eu lleoli ar y tir ac eithrio'r carafanau hynny sydd â chaniatâd cynllunio yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ymhlith pethau eraill.

Mae'r eithriad hwn yn bwysig am ei fod yn gysylltiedig â'r system o eithriadau rydych yn cyfeirio ati. O dan ddarpariaethau'r Atodlen Gyntaf i Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 gall Gweinidogion Cymru roi tystysgrif eithrio i unrhyw sefydliad y maent yn fodlon bod ei amcanion yn cynnwys annog neu hyrwyddo gweithgareddau hamdden. Mae'r dystysgrif yn galluogi sefydliad 'wedi'i eithrio' i ddefnyddio tir fel safle carafanau heb gael trwydded safle gan yr awdurdod trwyddedu a heb gael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol. Caiff y caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd hwn ei roi, mewn gwirionedd, o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 - ac mae'r eithriad a gynhwysir yn y waharddeb y cyfeirir ati uchod yn amodi nad yw'r waharddeb yn atal sefydliadau wedi'u heithrio rhag defnyddio tir ar Fferm Gilestone ar gyfer ralis.

Er bod Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg wedi mynegi pryderon ynghylch achosion o gamddefnyddio'r system dystysgrif eithrio ar Fferm Gilestone, yn ei farn ef, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth wirioneddol i ategu ei bryderon.

O ran Cyfarwyddyd Erthygl 4, ar 19 Mehefin 2009, cyflwynodd BBNPA Gyfarwyddyd i Weinidogion Cymru parthed y defnydd o dir ar Fferm Gilestone gan sefydliadau wedi'u heithrio. Fel y nodir uchod, rhoddir y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio tir yn unol â thystysgrif eithrio ar gyfer carafán deithiol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 a phe bai Gweinidogion Cymru yn cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4, byddai'r caniatâd hwnnw yn cael ei ddiddymu. O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai sefydliadau wedi'u heithrio yn gallu defnyddio eu tystysgrifau ar y tir a ddynodir yng Nghyfarwyddyd Erthygl 4 ond byddai angen iddynt wneud cais i BBNPA am ganiatâd cynllunio i leoli carafanau ar y tir.

Ystyriwyd yr achos a gyflwynwyd gan BBNPA o blaid y Cyfarwyddyd a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan BBNPA ac, ar 25 Tachwedd 2009, ysgrifennodd fy swyddogion at BBNPA fel a ganlyn:-

> "Fel y gwyddoch, nodir canllawiau manwl ar y meini prawf ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Atodiad Ch i Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 29/95. Yn

y bôn, y brif neges yw gan fod y Senedd wedi rhoi'r hawl i gynnal datblygiad a ganiateir, "dim ond o dan amgylchiadau eithriadol" y dylid diddymu hawliau datblygu a ganiateir ac anaml y bydd cyfiawnhad dros wneud hynny onid oes "bygythiad gwirioneddol a phenodol".

O ganlyniad, byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl gweld achos rhesymegol â sail gadarn dros bob Cyfarwyddyd a fyddai'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, pam yr ystyrir bod yr ardal benodol yn werth ei diogelu ac esboniad o'r hyn sy'n peri i'r awdurdod cynllunio lleol gredu bod bygythiad gwirioneddol a phenodol (yn hyn o beth rydym yn cyfeirio'n fwy at y <u>tebygolrwydd</u> y byddai'r datblygiad yn mynd rhagddo, yn hytrach na'r <u>posibilrwydd</u>).

Rhaid ystyried pob Cyfarwyddyd yn ôl ei rinweddau ei hun ac nid yw'r awydd i ddiogelu ardal, ynddo'i hun, yn ddigon i gyfiawnhau cymeradwyo Cyfarwyddyd a byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl gweld tystiolaeth resymol i ategu pryderon ynghylch datblygiad a ganiateir sydd ar ddod h.y. y byddai cyflawni gwaith datblygu a ganiateir heb ei reoli yn cael effaith andwyol ar yr ardal.

Yn yr achos hwn, rydych yn honni mai'r broblem sy'n gwarantu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw'r defnydd a wneir o'r tir gan sefydliadau sy'n mwynhau buddiannau tystysgrifau eithrio ar gyfer carafanau teithiol. Yn eich cyflwyniadau, nodwyd gennych fod nifer o sefydliadau wedi'u heithrio wedi defnyddio'r tir ond prin yw'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych i ategu'r canlynol:

(i) yr honiad mai'r sefydliadau hyn - yn hytrach nag unrhyw un arall - sy'n gyfrifol am y carafanau ar y tir sy'n destun Cyfarwyddyd Erthygl 4;
(ii) mai'r defnydd o hawliau datblygu a ganiateir yn hytrach na datblygu heb ganiatâd cynllunio neu heb gydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd sydd wedi achosi'r problemau sy'n gwarantu Cyfarwyddyd Erthygl 4, ym marn yr Awdurdod.

Mae'r materion hyn yn hollbwysig wrth ystyried pa un a ddylid cymeradwyo Cyfarwyddyd Erthygl 4 a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb iddynt cyn gynted â phosibl."

Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r llythyr hwnnw ac eithrio cais gan BBNPA ar 1 Ebrill 2010 i Weinidogion Cymru roi'r gorau i ystyried Cyfarwyddyd Erthygl 4 hyd nes iddynt gysylltu â ni eto. Rydym wedi cytuno i'r cais hwnnw.

Yn y Cyfarfod Llawn gwnaethoch gyfeirio at y ffaith bod Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg wedi ysgrifennu ataf chwe gwaith heb gael unrhyw ymateb gennyf. Ysgrifennodd Clerc y Cyngor at fy swyddogion ar 20 Ebrill 2010 yn nodi'r llythyrau nad oeddwn wedi ymateb iddynt. Rwy'n cydnabod nad ymatebais i'r llythyrau hynny yn bersonol am i swyddogion ddelio â hwy ar fy rhan. Yn dilyn ymchwiliad mae fy swyddogion wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:-

| Dyddiad llythyr y Cyngor Cymuned | Camau i'w cymryd ar ran yr Is-adran Gynllunio |
|---|---|
| 17 Ebrill 2007 | Derbyniwyd copi o'r llythyr hwn ond nid ymatebwyd iddo. Y rheswm dros hyn oedd mai copi oedd y llythyr a anfonwyd at Bennaeth yr Is-adran Gynllunio, Mrs Rosemary Thomas, ac am nad oedd yn cynnwys unrhyw gais am ymateb gwnaethom ystyried ei fod er gwybodaeth yn unig |

| | |
|---|---|
| 17 Mawrth 2008 | Anfonwyd yr ymateb i'r llythyr hwn gan Bennaeth yr Is-adran Gynllunio, Mrs Rosemary Thomas, at Mrs Sarah Osborne, Cadeirydd y Cyngor Cymuned ac awdur y llythyr, ar 15 Ebrill 2008 |
| 19 Mai 2009 | Ymatebwyd i'r llythyrau hyn gan S M Jones (Cangen Penderfyniadau yr Is-adran Gynllunio) mewn llythyr ar 19 Mehefin 2009 |
| 5 Mehefin 2009 | |
| 31 Mawrth 2010 | Ymatebwyd i'r llythyrau hyn gan S M Jones (Cangen Penderfyniadau yr Is-adran Gynllunio) mewn llythyr ar 22 Ebrill 2010 |
| 8 Ebrill 2010 | |

Mae Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg wedi codi'r materion hyn a nifer o faterion eraill mewn perthynas â Fferm Gilestone yn ddiweddar gyda fy swyddogion ac mae fy swyddogion wedi rhoi ymateb cynhwysfawr i'r Cyngor Cymuned. Atodaf gopi o'r ymateb hwnnw er gwybodaeth.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai, ar 30 Ebrill 2010**

**At Nick Bourne:**

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 6 a 9 Ebrill 2010 parthed y defnydd o dir ar Fferm Gilestone, Tal-y-bont ar Wysg, fel safle carafanau. Rwyf hefyd yn ymateb i'r materion a godwyd gennych ynghylch Fferm Gilestone gyda'r Trefnydd yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Ebrill 2010.

Fel y nodwyd gennych, diddymwyd y caniatâd cynllunio a roddwyd yn 2005 i ddefnyddio'r tir ar Fferm Gilestone fel safle carafanau gan yr Uchel Lys. Ers i chi ysgrifennu ataf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA) wedi cael gwaharddeb sy'n ei gwneud yn ofynnol i garafanau gael eu symud oddi ar y tir ar Fferm Gilestone ac yn gwahardd unrhyw garafanau eraill rhag cael eu lleoli ar y tir ac eithrio'r carafanau hynny sydd â chaniatâd cynllunio yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ymhlith pethau eraill.

Gwnaethoch gyfeirio at effaith ralis carafanau a gynhelir ar Fferm Gilestone ac mae Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg wedi codi'r mater hwn sawl gwaith, gan ofyn i gamau gael eu cymryd mewn perthynas â'r ralis.

O dan ddarpariaethau'r Atodlen Gyntaf i Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 gall Gweinidogion Cymru roi tystysgrif eithrio i unrhyw sefydliad y maent yn fodlon bod ei amcanion yn cynnwys annog neu hyrwyddo gweithgareddau hamdden. Mae'r dystysgrif yn galluogi sefydliad 'wedi'i eithrio' i ddefnyddio tir fel safle carafanau heb gael trwydded safle gan yr awdurdod trwyddedu a heb gael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol. Caiff y caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd hwn ei roi, mewn gwirionedd, o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 - ac mae'r eithriad a gynhwysir yn y waharddeb y cyfeirir ati uchod yn amodi nad yw'r waharddeb yn atal sefydliadau wedi'u heithrio rhag defnyddio tir ar Fferm Gilestone ar gyfer ralis.

Er bod y Cyngor Cymuned wedi mynegi pryderon ynghylch effeithiau'r defnydd o Fferm Gilestone gan sefydliadau wedi'u heithrio, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i nodi i ba raddau y mae'r gymuned yn pryderu ynghylch y defnydd o Fferm Gilestone gan y sefydliadau hynny. Gellir dadlau bod Fferm Gilestone wedi cael ei defnyddio gan dri gwahanol 'gategori' o ddeiliad – y rheini ar y tir sydd â'r caniatâd cynllunio a roddwyd yn 2005 (sydd bellach

wedi'i ddiddymu), y rheini ar y tir sydd â thystysgrif eithrio a'r rheini ar y tir heb ganiatâd cynllunio na thystysgrif eithrio. Er mwyn dileu'r tystysgrifau eithrio a gaiff eu rhoi i sefydliadau unigol, byddai angen i unrhyw un a fyddai'n gwneud cais o'r fath ddangos bod effeithiau defnydd y sefydliad hwnnw o'r tir ar yr ardal yn ddigonol i gyfiawnhau tynnu'r dystysgrif/tystysgrifau yn ôl – a byddai angen gwahaniaethu rhwng yr effeithiau hynny ac effeithiau'r 'categorïau' eraill o ddefnyddwyr y tir dan sylw.

Yn y Cyfarfod Llawn, gwnaethoch ofyn am ddatganiad mwy cyffredinol am y broses sy'n gysylltiedig â ralis carafanau gan ei fod yn fater sy'n peri pryder ar hyd a lled Cymru. Rwyf wedi cymryd yn ganiataol eich bod yn cyfeirio at y ralis a gynhelir gan sefydliadau wedi'u heithrio, yn y cyd-destun hwn.

Rwyf wedi nodi uchod y cefndir cyfreithiol i sefydliadau wedi'u heithrio, y mae ganddynt ryddid sylweddol o ran trefnu a goruchwylio cyfleusterau safleoedd ac y disgwylir iddynt gydnabod bod cyfrifoldebau penodol ynghlwm wrth y rhyddid hwnnw.

Er mwyn i sefydliad gael tystysgrif eithrio, disgwylir fel arfer iddo fodloni'r meini prawf canlynol:

a) Rhaid i'r sefydliad fod wedi'i ffurfio'n briodol a rhaid bod ganddo gyfansoddiad;

b) Rhaid i amcanion y sefydliad gynnwys annog neu hyrwyddo gweithgareddau hamdden;

c) Rhaid i'r sefydliad wneud cais am y dystysgrif er ei fudd ei hun ac er budd ei aelodau yn unig;

d) Rhaid i'r sefydliad allu monitro cydymffurfiaeth â gofynion a chyfyngiadau tystysgrif eithrio yn effeithiol.

Bwriad tystysgrifau eithrio yw helpu i annog a hyrwyddo'r defnydd hamdden o gefn gwlad. Rhaid i sefydliadau fodloni'r meini prawf perthnasol cyn y caiff tystysgrif o'r fath ei rhoi. Yn gyfnewid am y rhyddid sylweddol sy'n gysylltiedig â thystysgrif eithrio, disgwylir i sefydliadau sicrhau bod eu haelodau yn ymddwyn yn gyfrifol ar bob adeg.

Dylai sefydliadau gymryd camau digonol i leihau effaith eu gweithgareddau ee. sŵn, tagfeydd ar y ffyrdd ac unedau yn edrych dros eiddo lleol.

Mae'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â meddu ar dystysgrif yn cynnwys y meysydd canlynol o arfer da cyffredinol:

a) dylai sefydliad, lle y bo'n briodol, ofyn am farn yr awdurdod cynllunio lleol cyn gwneud trefniadau, yn arbennig ar gyfer digwyddiadau gerllaw safle masnachol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau cynllunio na gwrthwynebiadau eraill i'r defnydd o safle, ac ystyried osgoi'r safleoedd hynny os bydd gwrthwynebiadau'n codi;

b) dylai sefydliadau fod yn ystyriol o bryderon trigolion lleol y gallai gweithgarwch gwersylla neu garafanio mynych neu ar raddfa fawr effeithio arnynt, ac osgoi gorddefnyddio safleoedd poblogaidd;

c) bydd pob sefydliad, drwy gynnwys hynny yn ei god ymddygiad ffurfiol, yn ymrwymo i ymchwilio'n drwyadl i gwynion a wneir ynghylch gweithgareddau'r sefydliad neu ei aelodau;

d) bydd swyddog penodedig o fewn y sefydliad yn gyfrifol am feddu ar y dystysgrif/tystysgrifau eithrio ac am sicrhau bod copi ohoni ar gael i'w harddangos a'i harchwilio ym mhob digwyddiad a drefnir ganddynt.

Disgwylir hefyd i sefydliadau gydymffurfio â Chod Ymddygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sefydliadau wedi'u heithrio a, lle y bo'n briodol, y Cod Cefn Gwlad a'r Cod Arfordirol.

Mae gan bron i 250 o sefydliadau dystysgrifau eithrio sy'n eu galluogi i gynnal ralis carafanau yng Nghymru ac mae fy swyddogion wedi fy hysbysu, ac eithrio Fferm Gilestone, fod cwynion am ralis carafanau a gynhelir yng Nghymru gan sefydliadau wedi'u heithrio yn brin.

O ran Cyfarwyddyd Erthygl 4, ar 19 Mehefin 2009, cyflwynodd BBNPA Gyfarwyddyd i Weinidogion Cymru parthed y defnydd o dir ar Fferm Gilestone gan sefydliadau wedi'u heithrio. Fel y nodir uchod, rhoddir y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio tir yn unol â thystysgrif eithrio ar gyfer carafán deithiol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 a phe bai Gweinidogion Cymru yn cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4, byddai'r caniatâd hwnnw yn cael ei ddiddymu. O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai sefydliadau wedi'u heithrio yn gallu defnyddio eu tystysgrifau ar y tir a ddynodir yng Nghyfarwyddyd Erthygl 4 ond byddai angen iddynt wneud cais i BBNPA am ganiatâd cynllunio i leoli carafanau ar y tir.

Ystyriwyd yr achos a gyflwynwyd gan BBNPA o blaid y Cyfarwyddyd a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan BBNPA ac, ar 25 Tachwedd 2009, ysgrifennodd fy swyddogion at BBNPA fel a ganlyn:-

> "Fel y gwyddoch, nodir canllawiau manwl ar y meini prawf ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Atodiad Ch i Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 29/95. Yn y bôn, y brif neges yw gan fod y Senedd wedi rhoi'r hawl i gynnal datblygiad a ganiateir, "dim ond o dan amgylchiadau eithriadol" y dylid diddymu hawliau datblygu a ganiateir ac anaml y bydd cyfiawnhad dros wneud hynny onid oes "bygythiad gwirioneddol a phenodol".
>
> O ganlyniad, byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl gweld achos rhesymegol â sail gadarn dros bob Cyfarwyddyd a fyddai'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, pam yr ystyrir bod yr ardal benodol yn werth ei diogelu ac esboniad o'r hyn sy'n peri i'r awdurdod cynllunio lleol gredu bod bygythiad gwirioneddol a phenodol (yn hyn o beth rydym yn cyfeirio'n fwy at y <u>tebygolrwydd</u> y byddai'r datblygiad yn mynd rhagddo, yn hytrach na'r <u>posibilrwydd</u>).
>
> Rhaid ystyried pob Cyfarwyddyd yn ôl ei rinweddau ei hun ac nid yw'r awydd i ddiogelu ardal, ynddo'i hun, yn ddigon i gyfiawnhau cymeradwyo Cyfarwyddyd a byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl gweld tystiolaeth resymol i ategu pryderon ynghylch datblygiad a ganiateir sydd ar ddod h.y. y byddai cyflawni gwaith datblygu a ganiateir heb ei reoli yn cael effaith andwyol ar yr ardal.
>
> Yn yr achos hwn, rydych yn honni mai'r broblem sy'n gwarantu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw'r defnydd a wneir o'r tir gan sefydliadau sy'n mwynhau buddiannau tystysgrifau eithrio ar gyfer carafanau teithiol. Yn eich cyflwyniadau, nodwyd gennych fod nifer o sefydliadau wedi'u heithrio wedi defnyddio'r tir ond prin yw'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych i ategu'r canlynol:

(i) yr honiad mai'r sefydliadau hyn - yn hytrach nag unrhyw un arall - sy'n gyfrifol am y carafanau ar y tir sy'n destun Cyfarwyddyd Erthygl 4

;

(ii) mai'r defnydd o hawliau datblygu a ganiateir yn hytrach na datblygu heb ganiatâd cynllunio neu heb gydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd sydd wedi achosi'r problemau sy'n gwarantu Cyfarwyddyd Erthygl 4, ym marn yr Awdurdod.

Mae'r materion hyn yn hollbwysig wrth ystyried pa un a ddylid cymeradwyo Cyfarwyddyd Erthygl 4 a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb iddynt cyn gynted â phosibl."

Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r llythyr hwnnw ac eithrio cais gan BBNPA ar 1 Ebrill 2010 i Weinidogion Cymru roi'r gorau i ystyried Cyfarwyddyd Erthygl 4 hyd nes iddynt gysylltu â ni eto. Rydym wedi cytuno i'r cais hwnnw.

Mae Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg wedi codi'r materion hyn a nifer o faterion eraill mewn perthynas â Fferm Gilestone yn ddiweddar gyda fy swyddogion ac mae fy swyddogion wedi rhoi ymateb cynhwysfawr i'r Cyngor Cymuned. Atodaf gopi o'r ymateb hwnnw er gwybodaeth.